
SWIM WALES®
NOFIO CYMRU

# ADRODDIAD A CHYFRIFON BLYNYDDOL

## 2022 – 2023




@SwimWales

www.swimwales.org

# MWYNHAU DYSGU CYSTADLU GWEITHGAREDDAU DYFROL AR GYFER PAWB AM OES CYFLAWNI RHAGORIAETH Y RADD FLAENAF CYMRYD GWEITHG

# NOFIO CYMRU

## EIN GWELEDIGAETH

Gweithgareddau dyfrol i bawb am eu hoes.

## EIN CENHADAETH

Bwrdd Llywodraethu Cenedlaethol nodedig sy'n cyflawni rhagoriaeth, gan ysbrydoli ein cenedl i fwynhau, cymryd rhan, dysgu a chystadlu yng Ngweithgareddau Dyfrol Cymru.

## CYNNWYS


4 Y BWRDD

6 Y CADEIRYDD

7 Y PRIF WEITHREDWR

8 DATBLYGU GWEITHGAREDDAU DYFROL

10 DATBLYGU BUSNES

12 ELÎT A PHERFFORMIAD

14 CYFATHREBU

16 CYDRADDOLDEB

17 LLYWODRAETHU

18 DIOGELU

20 CYFRIFON


SWIM WALES
NOFIO CYMRU

# CROESO GAN Y BWRDD

**Mae Nofio Cymru wedi profi newidiadau sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, fodd bynnag, mae un peth wedi aros yn gyson, sef ein hymrwymiad diwyro i'n haelodau, ein cyfranogwyr a'n partneriaid.**

Mae gweithgareddau dyfrol Cymru yn cynnwys 11 o 'grwpiau defnyddwyr' gwahanol ac mae'r grwpiau hyn bob amser wedi bod wrth wraidd popeth a wnawn. O gyflwyno ein gweledigaeth ***'Gweithgareddau Dyfrol i Bawb am Oes'*** yn 2017, ein gwaith eiriolaeth sector, hyd at hyfforddi athrawon a hyfforddwyr ar draws y gweithlu dyfrol, mae gan bopeth a wnawn y gymuned ddyfrol mewn golwg.

Ni fu'r athroniaeth hon sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr erioed yn bwysicach nag yw hi nawr. Mae'r sector chwaraeon yng Nghymru a thu hwnt yn mynd trwy gyfnodau anodd gydag adferiad ôl-COVID, effaith costau byw a'r argyfwng ynni byd-eang. Mae llawer o Gyrff Llywodraethu Cenedlaethol a sefydliadau chwaraeon wedi gweld gostyngiadau sylweddol mewn refeniw a buddsoddiad ac wedi bod yn lleihau eu gweithrediadau a'u gwasanaethau. Rydym yn falch iawn o ddweud bod Nofio Cymru wedi dal i gynnal lefelau cryf o fuddsoddiad gan Chwaraeon Cymru a British Swimming a byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein meysydd strategol allweddol megis twf llwybrau, datblygu clybiau, cynaliadwyedd, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a datblygu pobl. Yn unol â'r adborth aruthrol rydym wedi'i dderbyn gan ein haelodau a'n defnyddwyr, rydym wedi gweithredu strategaethau twf sy'n golygu y byddwn yn cynnig gwasanaethau newydd yn amrywio o gymorth i glybiau a gwella sgiliau pwyllgorau, i wella systemau diogelu a rhaglennu datblygu hyfforddwyr.

Fel bwrdd rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau ein bod yn blaenoriaethu bod yn ddinasyddion corfforaethol da, ochr yn ochr â'n nodau masnachol, a bod y gwerthoedd hyn yn llifo trwy Nofio Cymru yn ein pobl, ein gweithdrefnau a'n hymddygiadau. Rydym wedi bod yn rhan o ddau archwiliad llywodraethu allanol dros y 12 mis diwethaf, ac wedi bod yn destun craffu manwl gan dderbyn canmoliaeth ac argymhellion cadarnhaol ar gyfer gwella. Byddwn yn cyflwyno'r nifer uchaf erioed o fentrau dros y flwyddyn nesaf er mwyn sicrhau bod gweithgareddau dyfrol yng Nghymru mor gynaliadwy â phosibl a bod Nofio Cymru yn chwarae rhan allweddol, fel arweinydd sector, wrth helpu pob un o'n grwpiau defnyddwyr gwahanol gwrdd â'u hamcanion eu hunain.

Rydym yn falch iawn o ddweud mai'r tîm gweithredol presennol yw'r cryfaf a fu gennym erioed, ac mae hynny'n rhywbeth yr ydym i gyd yn falch iawn ohono. Rydym yn parhau i fuddsoddi'n helaeth mewn hyfforddiant ar bob lefel y sefydliad o'n panel ieuenctid hyd at ein gwirfoddolwyr, ein staff a'n cyfarwyddwyr. Bydd hyn yn sicrhau mai ein tîm yw'r gorau yn y sector chwaraeon yng Nghymru, ei fod yn addas i'r diben ac yn barod i wynebu'r heriau yn y blynyddoedd i ddod.

**Bwrdd Cyfarwyddwyr**
Nofio Cymru

SWIM **WALES**
NOFIO **CYMRU**



# EIN BWRDD

## BWRDD NOFIO CYMRU


*Cadeirydd Nofio Cymru* **Allen Bewley**
*Is-gadeirydd Nofio Cymru* **Ian Jones**

*Prif Swyddog Gweithredol* **Fergus Feeney** *Cyfarwyddwr*
*Anweithredol Annibynnol* **Sian Prigg** *Cyfarwyddwr*
*Anweithredol Annibynnol* **Hema Luqman** *Cyfarwyddwr*
*Anweithredol Annibynnol* **Victoria Hale** *Cyfarwyddwr*
*Anweithredol Annibynnol* **Huw Lewis** *Cyfarwyddwr*
*Anweithredol Annibynnol* **Nicola Rylett-Jones** *Cyfarwyddwr*
*Anweithredol Annibynnol* **James Askey** *Cyfarwyddwr*
*Anweithredol Annibynnol* **Patrick Murphy**

*Llywydd Nofio Cymru* **Keri Hutchinson** *(2022-2024)*

## IS-BWYLLGORAU BWRDD NOFIO CYMRU

*Cadeirydd y Pwyllgor Pobl* **Sian Prigg**
*Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Risg* **Huw Lewis**
*Cadeirydd Aelodaeth a Marchnata* **Hema Luqman**
*Cadeirydd y Pwyllgor Cyfathrebu* **Victoria Hale**



# CADEIRYDD



**Allen Bewley**
*Cadeirydd, Nofio Cymru*

## ADRODDIAD Y CADEIRYDD

**Er bod adferiad o effaith hirdymor pandemig COVID-19 wedi gwneud hon yn flwyddyn heriol arall i Nofio Cymru, parhaodd ein hymrwymiad i ragoriaeth, arloesi a chydweithio ym mhopeth a wnawn er mwyn bodloni anghenion amrywiol ein holl glybiau ac aelodau, yn ogystal â'n rhanddeiliaid, partneriaid, rhoddwyr a buddsoddwyr yn gyson drwyddi draw.**

Yn anffodus, gyda thristwch mawr bu'n rhaid i ni gyhoeddi marwolaeth dau o gyn-gydweithwyr Nofio Cymru, Robert James ein Prif Swyddog Gweithredol blaenorol, yn ogystal â'n cyn Llywydd, Viv Perry. Roedd y ddau yn arweinwyr gyda gweledigaeth a drawsnewidiodd ein cwmni yn ogystal ag ysbrydoli llawer o bobl gyda'u hangerdd am weithgareddau dyfrol, mae colled fawr ar eu hôl.

Heb os, prif uchafbwynt 2022 oedd ein perfformiad rhagorol yng Ngemau'r Gymanwlad a gynhaliwyd yn Birmingham. O ystyried oedran a phrofiad ein hathletwyr, roedd cyflawni 11 record Cymru a llu o amseroedd personol a thymor gorau er gwaethaf helyntion Covid, yn gamp wirioneddol wych. Roedd y Gemau'n gyfle gwych i arddangos ein camp, fe wnaeth pawb berfformio'n wych a chafodd ein henw da fel Corff Llywodraethu Cenedlaethol ar gyfer Gweithgareddau Dyfrol ledled Cymru ei gadarnhau'n sylweddol.

Ond, ni fyddai'r cyflawniadau hyn wedi bod yn bosibl heb ymroddiad a gwaith caled ein holl staff, gwirfoddolwyr, aelodau bwrdd, rhoddwyr, partneriaid, cefnogwyr, clybiau ac wrth gwrs, ein nofwyr. Hoffwn fynegi fy niolch a'm gwerthfawrogiad diffuant i bawb am eu cyfraniadau a'u hymrwymiad i'n cenhadaeth a'n gweledigaeth.

Ond beth yn union mae'n ei olygu i fod yn rhan o weithgareddau dyfrol yng Nghymru? Mae'n golygu mwy nag ennill medalau neu dorri recordiau. Mae'n golygu bod yn rhan o gymuned sy'n gwerthfawrogi ac yn parchu pawb, waeth beth fo'u cefndir, eu gallu neu eu hunaniaeth. Mae'n golygu bod yn gynhwysol, yn hygyrch ac yn amrywiol ym mhopeth a wnawn. Mae'n golygu ymrwymo i ragoriaeth, arloesi a gwelliant parhaus. Mae'n golygu bod yn amgylcheddol ymwybodol ac yn gymdeithasol gyfrifol. Mae'n golygu bod yn falch o'n treftadaeth a'n diwylliant a chofleidio ein dwyieithrwydd. Yn fyr, mae'n golygu bod ar gael i bawb.


Dyna pam fod pawb yn fwy na gair, mae'n gysyniad sy'n llywio ein gweithredoedd a'n penderfyniadau. Ein nod sylfaenol yw gwneud gweithgareddau dyfrol yn gynhwysol ac yn hygyrch i bawb ledled Cymru, a sicrhau bod pawb yn cael cyfle i fwynhau manteision gweithgareddau dyfrol, p'un ai yw hynny ar gyfer iechyd, ffitrwydd, hwyl neu berfformiad. Rydym yn credu bod cynhwysiant nid yn unig yn ddyletswydd foesol, ond hefyd yn fantais strategol, gan ei fod yn caniatáu i ni estyn at bawb, a chreu partneriaethau newydd.

Gan edrych i'r dyfodol rydym yn wynebu llawer o gyfleoedd a heriau wrth i ni ymdrechu i gyflawni ein nodau a'n hamcanion strategol. Byddwn yn parhau i ymgeisio tuag at ragoriaeth ym mhopeth a wnawn, tra'n sicrhau ein bod yn cadw'n ymatebol, yn berthnasol ac yn wydn mewn byd newidiol ac ansicr. Byddwn hefyd yn ceisio cryfhau ein cydweithio a'n hymgysylltu â'n hamryw bartneriaid, gan ein bod yn credu, gyda'n gilydd y gallwn ni gyflawni mwy nag y gallwn ni ar ein pennau ein hunain.

Diolch am eich diddordeb a'ch cefnogaeth.



# PRIF WEITHREDWR



**Fergus Feeney**
*Prif Swyddog Gweithredol, Nofio Cymru*

## ADRODDIAD Y PRIF WEITHREDWR

**Rwy'n edrych yn ôl ar gyflawniadau blwyddyn 2022-23 gyda chryn falchder. Ar ôl dwy flynedd o aflonyddwch, gwnaethom gyfuno ein hymdrechion er mwyn ail-adeiladu seiliau cadarn gweithgareddau dyfrol yng Nghymru - aelodaeth ein clybiau, ein rhaglenni dysgu nofio, ein hysgolion nofio ac wrth gwrs, ein cyfranogiad ehangach ar draws Cymru.**

Fel y Corff Llywodraethu Cenedlaethol cydnabyddedig ar gyfer gweithgareddau dyfrol yng Nghymru, gwnaethom ddathlu blwyddyn fawr yn 2022, ein 125ain pen-blwydd. Roedd yn anrhydedd enfawr arwain y sefydliad yn ystod y cyfnod hwn wrth i ni fyfyrio ar ein llwyddiannau dros hanes cyfoethog ein sefydliau a'i holl bobl wych o'n gwirfoddolwyr i'n sêr Olympaidd. Hoffwn hefyd fynegi fy ngwerthfawrogiad i'n deifwyr a'n nofwyr talentog a'n cynrychiolodd ni yn Birmingham yng Ngemau'r Gymanwlad, ac ym mhob camp a chystadlaeth eraill. Gwnaethon nhw berfformio'n wych gan gyflawni canlyniadau llwyddiannus ar draws y byd. Roeddwn i'n falch o ddechrau datblygu ein cylch strategol ac arwain proses ymgynghori

a oedd yn cynnwys dros 400 o randdeiliaid - clybiau gweithgareddau dyfrol, aelodau, gweithredwyr cyfleusterau, awdurdodau lleol, byrddau llywodraethu cenedlaethol, cynghorau chwaraeon ac ymddiriedolaethau hamdden i enwi ond ychydig. Mae Strategaeth25 wedi datblygu'n YMLAEN ac mae mwy i ddod eleni. Gwnaethon barhau i weithio'n galed i gyflawni ein gweledigaeth o 'weithgareddau dyfrol i bawb am oes' gyda phwyslais arbennig ar amddiffyn cyfleusterau a diogelu ein gweithgareddau a'n campau yn y dyfodol. Unwaith eto, rydym wedi cyflawni ein targedau ariannol, gan gynnwys y twf uchaf erioed yn ein busnes hyfforddi a datblygu (Gweler y cyfrifon ar wahân).

### PARTNERIAETHAU

Ein cenhadaeth hirdymor yn Nofio Cymru ywcael ein cydnabod fel arweinydd sector yn chwaraeon Cymru/ Prydain Fawr. Er mwyn gwneud hynny, rydym yn dibynnu ar lu o bartneriaid a dros y 12 mis rydym wedi parhau i ddatblygu ein strategaeth partneriaeth, gan greu sawl partneriaeth strategol newydd ar draws chwaraeon, iechyd, addysg uwch a chydraddoldeb a chynhwysiant. Erbyn hyn mae gennym dros 350 o randdeiliaid gweithredol wedi'u mapio a'u cefnogi gan gynlluniau gweithredu cryf a strategaeth gyfathrebu gadarn. Trwy gyflwyno dull partneriaeth rydym wedi cynyddu ein galluoedd yn sylweddol fel Corff Llywodraethu Cenedlaethol ac yn ei dro, graddfa ein heffaith ar weithgareddau dyfrol yng Nghymru.

### CYNHWYSIANT

Rydym wedi tyfu ein rhwydwaith amrywiaeth a chynhwysiant yn sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf er mwyn cefnogi'r hyn rydym yn ei alw'n 'llwybrau cynhwysol' ar draws ein gweithgareddau a'n campau. Rydym wedi nodi partneriaid newydd ac wedi datblygu cysylltiadau newydd gyda grwpiau cynrychiadol fel y Gymdeithas Nofio i Bobl Dduon (BSA), Diverse CYMRU, Chwaraeon Anabledd Cymru, Nofio Paralympaidd y Byd a grwpiau trawsryweddol, Merched Mwslimaidd a llawer o grwpiau cymunedol newydd ac arbenigwyr yn y maes hwn. Rydym bellach yn un o brif weithgareddau a champau Cymru gyda dros 15% o boblogaeth Cymru yn cymryd rhan bob wythnos. Mae'r cyfleoedd i ychwanegu at hyn gyda phobl o bob cwr o Gymru yn gyffrous iawn.

### CYNALIADWYEDD

Roedd ein cyflawniadau yn 2022 hefyd yn cynnwys rhoi hwb i'n hymrwymiadau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu a chynaliadwyedd, trwy groesawu nifer drawiadol o weithwyr ynni proffesiynol i wella ein sylfaen wybodaeth yn y maes hwn a helpu i greu atebion ar gyfer y sector gweithgareddau dyfrol. Byddwn yn lansio rhaglen 'AQUAZERO' i gefnogi cynllun Sero net 2030Llywodraeth Cymru  a sicrhau bod gan y gymuned weithgareddau dyfrol yng Nghymru y sgiliau a'r wybodaeth ynglŷn â sut i wneud y newidiadau angenrheidiol i'n hamgylcheddau. Mae cadwraeth ynni yn y sector gweithgareddau dyfrol yn gam mawr tuag at annibyniaeth ynni, gweithgareddau dyfrol a chwaraeon cynaliadwy ac yna yn y pen draw, byd carbon niwtral.

### YMGYSYLLTIAD

Mae'r bobl sy'n ymwneud â gweithgareddau dyfrol yng Nghymru yn gyrru popeth rydym ni'n ei wneud, ac rydym wedi ymrwymo i wneud ymdrechion eithriadol i ddarparu amgylchedd gwaith hollgynhwysol o'r radd flaenaf i'n gweithlu (gwirfoddolwyr a chyflogeion) er mwyn iddynt gyflawni eu llawn botensial. Er mwyn cadw ein hymrwymiadau i'r gymuned gweithgareddau dyfrol rydym yn eu gwasanaethu a'u cynrychioli, rydym hefyd yn cydnabod bod tyfu ein rhaglenni nofio, llwybrau ein clybiau a'n cronfa dalent yn hanfodol i'n llwyddiant. Mae ein gweithlu wedi datblygu ar raddfa drawiadol. Ddechru 2022 roeddem yn brin iawn o athrawon nofio a hyfforddwyr yng Nghymru ac erbyn diwedd y flwyddyn roeddem wedi hyfforddi bron 1500+ o weithwyr proffesiynol yn ein sector. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae ein rhaglen hyfforddi genedlaethol wedi ymgysylltu â dros 300 o brif hyfforddwyr a hyfforddwyr cynorthwyol ac rydym wedi bod yn gweithio tuag at adeiladu ymdeimlad o berthyn tra'n hyrwyddo ein diwylliant a'n hegwyddorion arweiniol.


### MASNACHOL

Mae ein cynlluniau masnachol yn dal i symud ymlaen gyda 60% o'r holl incwm bellach wedi'i hunan-gynhyrchu drwy ystod o ffrydiau refeniw sydd wedi'u hen sefydlu. Heb os nac oni bai, ein dêl nawdd byd-eang gyda Speedo, ein cwmni meddalwedd Pasbort Chwaraeon a'n busnes hyfforddi a datblygu yw llwyddiannau mawr y flwyddyn 2022-23.


### TWF

Er gwaethaf y cyd-destun macro-economaidd, rwy'n credu bod Nofio Cymru mewn sefyllfa dda i gwrdd â'r heriau fydd yn eu hwynebu yn 2023-24. Mae'r galw cudd iach am weithgareddau dyfrol a welir yn yr arolwg Chwaraeon Ysgolion Cenedlaethol* ac Arolwg Oedolion Actif Cenedlaethol* sy'n dweud fod bron i 300,000 o oedolion a phlant eisiau bod yn fwy actif yn y dŵr neu ddechrau nofio am y tro cyntaf, yn ein cryfhau. Er ein bod yn parhau i fod yn ofalus, gallwn fod yn optimistaidd am ein dyfodol wrth i ni ganolbwyntio ar adeiladu'r cysylltiadau rhwng dysgu nofio a'n clybiau a datblygu cyfleoedd y tu hwnt i nofio cystadleuol i weithgareddau dŵr hamdden prif ffrwd.

Rwy'n hynod o ddiolchgar i bawb sydd wedi ein cefnogi yn ystod y flwyddyn gyffrous a hanesyddol hon, yn enwedig ein clybiau aelodau, pwyllgorau, rhanbarthau, gwirfoddolwyr a'n cyfranogwyr gwych. Rwy'n ddiolchgar hefyd i fwrdd Nofio Cymru am roi arweiniad amhrisiadwy ac i'n staff talentog am ein helpu i gyflawni ein gweledigaeth bob dydd. Rwy'n edrych ymlaen at y flwyddyn nesaf ac rwy'n gyffrous am yr hyn y gallwn ni ei gyflawni gyda'n gilydd.



# DATBLYGU GWEITHGAREDDAU DYFROL



> "YM MIS MEDI, CYNHALIWYD GWEITHDY CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH AR GYFER POB UN O'N HAELODAU CYSYLLTIOL, EIN PARTNERIAID, EIN STAFF, A'R BWRDD"

## MEISTRI ARTISTIG DEIFIO DWR AGORED POLO DWR

**Mae'r tîm Gweithgareddau Dyfrol wedi croesawu nifer o bobl newydd i'r tîm yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf (2022/23) sydd eisoes wedi cael effaith gadarnhaol ar ein tîm a'r gwaith rydym yn ei wneud.**

Flwyddyn ar ôl lansio system aelodaeth newydd Nofio Cymru, gwnaethom asesu ei berfformiad a gwneud addasiadau angenrheidiol i wella profiad y defnyddiwr. Yn fwyaf arbennig, rydym wedi adnewyddu strwythur pob aelodaeth gysylltiol, gan arwain at gyfnod dilysrwydd o 12 mis o'r dyddiad prynu. Mae ein tîm yn goruchwylio effaith yr addasiadau hyn ac yn rhagweld ymestyn yr addasiad hwn i bob math o aelodaeth er mwyn paratoi ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod.

Yn 2022-23 yn dilyn nifer o flynyddoedd cythryblus dychwelodd ein calendr digwyddiadau llawn. Mae wedi bod yn wirioneddol galonogol gweld athletwyr o Gymru yn cymryd rhan, yn mwynhau ac yn ffynnu, boed hynny yn y pwll, yn y llyn neu yn ein gwobrau cenedlaethol. Mae wedi bod yn wirioneddol braf gweld ffigurau mynediad ar gyfer ein Digwyddiadau Cenedlaethol mor uchel, gan adlewyrchu adferiad rhyfeddol y gymuned gweithgareddau dyfrol.

Cafodd Gwobrau Clwb Cenedlaethol Nofio Cymru 2022 eu cynnal ym mis Rhagfyr i ddathlu ein cymuned Gweithgareddau Dyfrol Cymru anhygoel. Roedd y gwobrau'n cydnabod athletwyr, hyfforddwyr, gwirfoddolwyr, a chlybiau sydd wedi gwneud cyfraniad eithriadol i weithgareddau dyfrol Cymru dros y flwyddyn ddiwethaf. Rydym yn edrych ymlaen at ddychwelyd y flwyddyn nesaf gyda noson wobrwyo wyneb yn wyneb sy'n addo bod yn fwy ac yn well nag erioed o'r blaen.

Gwnaethon barhau i weld cynnydd o ran yr ysgolion Dysgu nofio a'r darparwyr sy'n cwblhau'r Achrediad Dysgu Nofio. Mae dod yn ddarparwr achrededig yn cydnabod rhagoriaeth o ran llywodraethu, a chynaliadwyedd, ond yn bwysicaf oll mae'n dangos bod y darparwr yn rhoi profiad cadarnhaol a diogel i bawb.

Parhaodd gweithredwyr Dysgu Nofio i adrodd fod niferoedd cynyddol yn cymryd rhan yn eu rhaglenni, gyda llawer yn dweud bod eu rhaglenni'n llawn a bod ganddynt restrau aros hirfaith. Ar y cyd â'n partneriaid aethom i'r afael ag unrhyw heriau a ddaeth yn sgîl y galw cynyddol, yn enwedig yn ymwneud ag anghenion y gweithlu a hyfforddiant.

Ymysg yr heriau, mae'r twf ar draws y mentrau Dysgu Noifo yn dal i fod yn gyffrous o ran cynyddu cyfranogiad ac ymgysylltiad yn sylweddol ar draws pob clwb gweithgareddau dyfrol. Ym mis Tachwedd, rhoddodd recriwtio ein Rheolwr Datblygu Llwybrau a Chwaraeon newydd gyfle i ni adolygu ein tirwedd ddyfrol, gan nodi meysydd datblygu ar gyfer pob camp ddyfrol a bu'n fodd i ddysgu sut y gellir rhannu arfer da a'i roi ar waith ar draws Gweithgareddau Dyfrol yng Nghymru.

Gan adeiladu ar lwyddiant galwadau gan ein partneriaid, clybiau a'n gweithredwyr yn ystod y pandemig gwnaethom barhau i gynnal sesiynau ymgysylltu rhithwir bob pythefnos. Mae'r sesiynau hyn wedi bod yn werthfawr iawn o ran sicrhau cyfathrebu cyson gyda'n clybiau a'n partneriaid wrth rannu dysgu ac arfer da. Cafodd siaradwyr gwadd eu gwahodd i fynychu rhai sesiynau er mwyn arallgyfeirio ein trafodaethau ond gwnaethant hefyd roi arweiniad amhrisiadwy ar fynd i'r afael â'r heriau uniongyrchol a'r rhai sydd i ddod yn ein sector, bydd hyn yn parhau yn y dyfodol.

Yn ogystal â chynnal cyfres o sesiynau ymgysylltu rhithwir ym mis Medi, cynhaliodd tîm Gweithgareddau Dyfrol a Phrif Swyddog Gweithredol Nofio Cymru Sioe Deithiol gynhwysfawr lwyddiannus er mwyn ymgysylltu â phartneriaid a chlybiau ar draws Cymru. Rhoddodd y sioe deithiol lwyfan i rannu gweledigaeth ein strategaeth newydd, ond hefyd hwylusodd y gwaith o gasglu adborth gwerthfawr cyn ei lansio. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'r rhai a fynychodd ac a gyfrannodd at y drafodaeth.

Yn unol â'n gweledigaeth 'Gweithgareddau Dyfrol i Bawb am eu Hoes' rydym wedi ymrwymo i sicrhau trawsnewidiad diwylliannol, gan ymgorffori cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn gadarn wrth wraidd y sefydliad. Rydym yn credu y dylai pawb waeth beth yw eu nodwedd warchodedig gael y cyfle i fod yn actif yn y dŵr sy'n dangos ein dealltwriaeth o'n gofynion cyfreithiol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi bod yn gweithio gydag ystod o grwpiau cymunedol ar draws Cymru, yn gwrando ar eu hanghenion ac yn chwalu'r rhwystrau er mwyn cynyddu mynediad a'r gallu i gymryd rhan mewn gweithgareddau dyfrol yn rheolaidd.

Cynhaliom weithdy Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ym mis Medi ar gyfer ein holl aelodau cyswllt, partneriaid, staff ac aelodau bwrdd Roedd yr ymateb i'r gweithdy yn ffafriol iawn a byddwn yn parhau i gefnogi ein haelodau, ein clybiau a'n partneriaid wrth i ni symud ymlaen. Wrth i ni edrych tuag at y flwyddyn ariannol sydd i ddod, mae nifer o brosiectau cyffrous eisoes yn cael eu datblygu a fydd yn sbarduno arloesedd ac yn codi ein heffaith sefydliadol.


Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'n cymuned gweithgareddau dyfrol anhygoel am eu holl gefnogaeth dros y flwyddyn ddiwethaf, gyda diolch arbennig i'r holl wirfoddolwr clwb a digwyddiadau a swyddogion sy'n helpu i gynnal ein camp.

Diolch yn fawr,

**Sioned Williams**
*Pennaeth Gweithgarwch Dyfrol a Chynhwysiant*




SWIM WALES
NOFIO CYMRU



# DATBLYGU BUSNES

> “DYCHWELODD EIN DIGWYDDIADAU CENEDLAETHOL IW TREFN ARFEROL GYDAG ORIELAU GWYLIO LLAWN A CHWOTA LLAWN O GYSTADLEUWYR A CHEISIADAU”

**Ar ôl llwyddo i lywio’r heriau digynsail a ddaeth yn sgil gweithredu yn ystod pandemig byd-eang, wynebodd gweithgareddau masnachol Nofio Cymru brawf arall yn 2022/23.**


Rydym wedi llywio’r 12 mis diwethaf gyda gofal o ganlyniad i bryderon am yr effaith y byddai’r argyfwng ynni a chostau byw yn ei chael ar ein ffrydiau masnachol.

Er bod y bygythiad hwn yn parhau, rydym yn falch i adrodd na wnaeth lesteirio’r canlyniadau Datblygu Busnes ar gyfer eleni. Cafodd Datblygu Busnes ganlyniadau calonogol iawn gyda Hyfforddi a Datblygu, Gwobrau Dysgu Nofio a Nwyddau yn ffynnu ac yn perfformio y tu hwnt i’n disgwyliadau.

Parhaodd busnesau a chyfleusterau i aros ar agor drwy gydol y flwyddyn, gan sicrhau bod ein ffrydiau incwm yn ffynnu wrth i ni weithio ar y cyd â’n partneriaid, sef awdurdodau lleol, ymddiriedolaethau, ysgolion nofio a darparwyr eraill. Mae adborth cadarnhaol o’n cwsmeriaid wedi tynnu sylw at eu cydnabyddiaeth o’r gwerth rydym yn ei ddarparu fel Corff Llywodraethu Cenedlaethol.

O’i gymharu â chynllun 2022-23, gwellodd Nofio Cymru refeniw masnachol o 19% a gwellodd gyfraniad o 22%. Roedd y refeniw Datblygu Busnes dros £550,000, cynnydd sylweddol o 10% ers y flwyddyn gynt, drwy ein pedair ffrwd refeniw craidd.

Mae’r prinder cenedlaethol o athrawon nofio yn parhau i fod yn her sylweddol i’n cwsmeriaid. Mae Nofio Cymru wedi parhau i archwilio cyfleoedd i gydweithio â phartneriaid i helpu i recriwtio a chadw athrawon ac rydym yn dangos hyblygrwydd er mwyn sicrhau ein bod yn ymwneud â’r mater hwn gyda’n gilydd.




Mae ein cynnig Hyfforddiant a Datblygu yn esblygu gyda chyflwyniad gweithgareddau e-ddysgu. Mae awydd mawr am y dull hwn o ddysgu, sy’n lleddfu sylweddol y pwysau ar ddysgwyr o orfod bod yn yr ystafell ddosbarth mewn canolfannau hamdden. Trwy ddadansoddi ac ymchwil, mae’n amlwg nad yw’n ddull sy’n addas i bawb, felly rydym yn parhau i gynnig dulliau gwahanol yn ein portffolio, o ddysgu wyneb yn wyneb i’r opsiwn dysgu cyfunol cynyddol. Mae’r hyblygrwydd a’r ystod o opsiynau dysgu wedi cynyddu’r gyfradd cyflawni. Mae ein cyrsiau athrawon a hyfforddwyr yn parhau i fod yn hynod o boblogaidd yn y farchnad gystadleuol hon ac rydym wedi cyflwyno nifer o gyrsiau newydd i’n portffolio gan gynnwys: Hyfforddwr Deifio Cynorthwyol, Sgiliau Polo Dŵr (Lefel 2) a Chwrs Diogelwch Dŵr Agored.

Mae ein digwyddiadau cenedlaethol wedi dychwelyd i’w trefn arferol gydag orielau gwylwyr llawn a chwota llawn o gystadleuwyr a cheisiadau, gan sicrhau bod ein hystod o nwyddau digwyddiadau sefydlog a phoblogaidd wedi’u gwerthu’n llwyddiannus. Mae ein dull ‘normal newydd’ o werthu ar-lein cyn y digwyddiadau drwy wefan newydd Nofio Cymru wedi bod yn effeithiol ac yn effeithlon.

Mae cwsmeriaid wedi cynyddu nifer yr asesiadau yn eu rhaglenni Dysgu Nofio o’u cymharu â’r flwyddyn flaenorol. Ynghyd â’n canlyniad ariannol o ran y Gwobrau Dysgu nofio a gyda rhestrau aros yn lleihau, dyma ein dangosyddion mwyaf o gynnydd Dysgu Nofio ar draws Cymru. Mae Datblygu Busnes yn adolygu ein Gwobrau Dysgu Nofio Cymru i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol yn yr oes ddigidol hon.

Mae’r amgylchedd nawdd yn parhau i fod yn anodd ledled y byd gweithgareddau dyfrol. Rydym yn falch iawn o gefnogaeth barhaus Speedo UK Ltd yn ogystal â llu o bartneriaid sy’n parhau i gefnogi a gweithio gyda’n sefydliad. Mae nawdd wedi caniatáu i Nofio Cymru adnewyddu ein digwyddiadau cenedlaethol gyda gwedd a theimlad cyffrous. Wrth symud ymlaen bydd mwy o bwyslais ar gydweithio nawdd gyda British Swimming, Scottish Swimming a Swim England gan weithio tuag at sicrhau partneriaethau gyda brandiau rhyngwladol.

Byddwn yn parhau i ymgysylltu â’r holl bartneriaid yn 2023/24 gan ddatblygu ein cynnyrch a’n gwasanaethau a fydd yn diwallu eu hanghenion a’u gofynion. Diolch am eich cefnogaeth.

**Jon Fletcher**
*Pennaeth Datblygu Busnes*




# ELÎT A PHERFFORMIAD

> MAE DROS 100 O ATHLETWYR WEDI DERBYN CEFNOGAETH A DATBLYGIAD DRWY RAGLEN CARFAN GENEDLAETHOL NOFIO CYMRU DROS Y 12 MIS DIWETHAF

**Dechreuodd blwyddyn ariannol 2022/23 yn gadarnhaol gyda llawer o athletwyr Nofio Cymru yn cael eu dewis ar gyfer prif gystadlaethau rhyngwladol hŷn 2022. Cafodd cyfanswm o 23 o athletwyr (16 nofiwr, pedwar nofiwr Paralympaidd a thri deifiwr) eu dewis gan Gemau'r Gymanwlad Cymru (CGW) i gynrychioli Tîm Cymru yng Ngemau'r Gymanwlad Birmingham 2022. Cafodd pedwar o athletwyr eu dewis i gynrychioli Prydain Fawr ym Mhencampwriaethau Dyfrol y Byd FINA yn Budapest, a chafodd pedwar eu dewis i gystadlu ym Mhencampwriaethau Ewrop LEN yn Rhufain.**

Cynhaliwyd digwyddiad rhyngwladol mawr cyntaf 2022 ym mis Mehefin ym Mhencampwriaethau Dyfrol y Byd FINA yn Budapest, Hwngari. Cafwyd perfformiadau rhagorol gan nofwyr Cymru gyda Matt Richards yn ennill medal efydd fel rhan o garfan gyfnewid 4 x 200 dull rhydd y dynion, Medi Harris yn cyrraedd dwy rownd derfynol unigol (50m a 100m nofio ar y cefn - 7fed yn y ddwy) ynghyd â 4ydd yn y ras gyfnewid gymysg 4 x 100m; Daniel Jervis yn cyrraedd rownd derfynol dull rhydd 1500m (gan orffen yn 7fed); a Hector Pardoe yn cael yr 11eg safle yn y digwyddiad dŵr agored 10km.

Symudodd y sylw'n gyflym i Gemau'r Gymanwlad yn Birmingham a gynhaliwyd rhwng 28 Gorffennaf a 8 Awst.

Enillydd medal gyntaf y Gemau i Gymru yn y pwll oedd Lily Rice yn ras nofio 100m ar y cefn i ferched S8, a pherfformiodd y nofiwr Paralympaidd o Sir Benfro oedd yn rhagorol gan ennill gwobr efydd. Yn fuan ar ôl hynny, parhaodd Medi Harris ei rhediad o berfformiadau rhagorol i ennill gwobr efydd y tu ôl i'r enillwyr medalau Olympaidd Kaylee McKeown a Kylie Masse ar noson i'w chofio yn Birmingham. Yn anffodus, doedd dim medalau eraill, ond efallai mai'r ystadegau y tu ôl i'r medalau yw'r adlewyrchiad gorau o berfformiad rhagorol y tîm. Llwyddodd y tîm i gael cyfanswm o 20 aelod yn gorffen yn yr wyth uchaf (ennill lle yn y rownd derfynol), 13 yn gorffen yn y chwech uchaf a 6 yn gorffen yn y pedwar uchaf. Wrth ystyried cystadleuwyr yn y rhagrasys cyfnewid, llwyddodd 16 allan o dîm o 20 i orffen yn y 6 uchaf yn y Gemau (20%), ac 20 allan o 20 orffen yn yr 8 uchaf (100%). Llwyddodd y tîm i gyflawni cyfanswm anhygoel o 11 record genedlaethol newydd i Gymru dros y chwe diwrnod yn Sandwell.

O safbwynt deifio, cynrychiolodd tri athletwr, y nifer mwyaf erioed, Dîm Cymru dros dair disgyblaeth. Ym mhob un o'r tair cystadleuaeth, aeth deifwyr Cymru ymlaen o'r rhagbrofion i'r rowndiau terfynol, gyda Lucy Hawkins yn gorffen yn 12fed ym mhlatfform 10m y merched, Aiden Heslop yn gorffen yn 8fed ym mhlatfform 10m y dynion, a Ruby Thorne ac Aidan Heslop yn gorffen yn 8fed yn y cyd-ddeifio 10m.

Cynhaliwyd digwyddiad mawr olaf yr haf ym Mhencampwriaethau Dyfrol Ewrop LEN yn Rhufain fis Awst. Cynrychiolodd tri nofiwr ac un deifiwr Prydain Fawr ac roedd yn ddigwyddiad llwyddiannus iawn gyda Nofwyr o Gymru yn ennill tair medal Aur (Medi Marris ras gyfnewid 4x100m dull rhydd, Matt Richards, ras gyfnewid dull rhydd 4x200m cymysg, Kieran Bird ras gyfnewid 4x200m dull rhydd cymysg), tair medal Arian (Medi Harris 100m nofio ar y cefn, Medi Harris ras gyfnewid 4x200m dull rhydd) a dwy fedal Efydd (Matt Richards ras gyfnewid 4x100m dull rhydd, Medi Harris ras gyfnewid 4x100m gymysg). Daeth Aiden Heslop yn 6ed yng nghystadleuaeth deifio uchel y dynion yn Rhufain, a gorffennodd ei dymor ar y podiwm yn rownd derfynol Cyfres Deifio Uchel Red Bull y Byd yn Sydney i gyrraedd yr ail safle yng Nghyfres y Byd, cyflawniad rhyfeddol i ddeifiwr yn ei dymor llawn cyntaf ar y gylchdaith.

O safbwynt llwybr perfformiad, mae dros 100 o athletwyr wedi derbyn cefnogaeth a datblygiad drwy Raglen Sgwad Genedlaethol Nofio Cymru dros y 12 mis diwethaf, yn amrywio o wersylloedd hyfforddi domestig yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau, profion ffisiolegol ac addysg gyfannol, hyd at gyfleoedd hyfforddi a chystadlu rhyngwladol. Mae rhaglen Sgwad Genedlaethol Nofio Cymru'n parhau i chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o gefnogi athletwyr elît Cymru sy'n perfformio ar lwyfan y Byd, gan barhau i ddatblygu ac ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o nofwyr a hyfforddwyr cenedlaethol.

Mae datblygiad proffesiynol hyfforddwyr ar draws Cymru wedi parhau i fod yn flaenoriaeth strategol. Mae rhaglenni Datblygu Hyfforddwyr Nofio Cymru wedi darparu dros 30 o gyfleoedd datblygu i bron â bod 40 o hyfforddwyr dros y cyfnod o ddeuddeg mis yn amrywio o weithdai penodol a dysgu drwy brofiad rhyngwladol i gyfleoedd dysgu ymarferol ar draws y Llwybr Sgwad Cenedlaethol. Bu cydweithio sylweddol hefyd gyda British Swimming a'r Gweledydd Cartref eraill i ddatblygu a lansio'r Fframwaith Datblygu Hyfforddwyr Optimaidd.

Yn dilyn cwblhau a chymeradwyo fframwaith sicrwydd gwrthgyffuriau'r DU (UKAD) ym mis Ebrill 2022, parhaodd Nofio Cymru i fod wedi ymrwymo i hyrwyddo chwaraeon glân a darparu addysg briodol. Yn ystod 2022/23, cyflwynodd Nofio Cymru ar y cyd ag UKAD, raglen addysg wrth-gyffuriau ar draws pob lefel o'r llwybr Rhaglen Genedlaethol i athletwyr a staff.

Ym mis Medi 2022 dechreuodd Nofio Cymru 'adolygiad o'r system berfformio' wedi'i hwyluso'n annibynnol er mwyn ymgysylltu â rhanddeiliaid a phartneriaid fel athletwyr, hyfforddwyr, clybiau, Nofio Cymru a British Swimming er mwyn sicrhau esblygiad a gwellhad parhaus y system berfformio yng Nghymru. Mae'r mewnweliadau a'r dysgu a gasglwyd trwy'r adolygiad wedi arwain at ddatblygu tri maes ffocws allweddol y bydd y Tîm Perfformio yn eu gyrru ymlaen dros y blynyddoedd nesaf - gwella'r llwybr cystadlu, esblygu ein hamgylcheddau perfformiad uchel a chyflwyno rhaglenni datblygu rhanbarthol er mwyn ategu'r Rhaglen Sgwad Genedlaethol.

Wrth i ni edrych ymlaen at flwyddyn ariannol 2023/24, mae arwyddion calonogol eisoes o flwyddyn gyffrous a llwyddiannus wrth i nofwyr a nofwyr paralympaidd gael eu dewis i gynrychioli Prydain Fawr ar draws holl brif ddigwyddiadau 2023 gan gynnwys Pencampwriaethau Gweithgareddau Dyfrol y Byd FINA, Pencampwriaethau Nofio Paralympaidd y Byd, Pencampwriaethau Dan 23 LEN Ewrop, Pencampwriaeth LEN Ewrop, a Gŵyl Olympaidd Ieuenctid Ewrop. Yn ogystal, mae 10 nofiwr wedi cael eu dewis i gynrychioli Tîm Cymru yng Ngemau Ieuenctid y Gymanwlad yn Nhrinidad a Tobago a fydd yn gyfle gwych i'r nofwyr iau gorau yng Nghymru ennill profiad hanfodol mewn Gemau aml-chwaraeon.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddymuno'r gorau i'r rhain a'r holl athletwyr gweithgareddau dyfrol ar draws Cymru, ar gyfer y cystadlaethau sydd o'n blaenau a diolch yn bersonol i'n holl bartneriaid allweddol - British Swimming, Swim England, Scottish Swimming, Nofio Cymru, Tîm Cymru a'n darparwyr cyfleusterau am eu cefnogaeth a'u cydweithrediad. Yn olaf, hoffwn ddiolch i'n holl athletwyr, hyfforddwyr, rheolwyr tîm, ymarferwyr gwyddor chwaraeon a gwirfoddolwyr clybiau ar draws Cymru sydd wedi rhoi cymaint er mwyn gwneud y flwyddyn ddiwethaf yn gymaint o lwyddiant.

**Ross Nicholas**
*Cyfarwyddwr Perfformiad Cenedlaethol*

**12**
O Athletwyr Nofio Cymru ar Raglen Safon Byd (WCP) British Swimming / British Para Swimming ar gyfer 2022/23

**23**
O Athletwyr wedi cael eu dewis i gynrychioli Tîm Cymru yng Ngemau'r Gymanwlad Birmingham 2022

**2**
Fedal wedi eu hennill yng Ngemau'r Gymanwlad Birmingham 2022

**21**
Yn gorffen yn yr 8 uchaf yng Ngemau'r Gymanwlad Birmingham 2022

**6**
Athletwr Nofio Cymru wedi eu dewis i gynrychioli British Swimming ym Mhencampwriaethau Gweithgareddau Dyfrol y Byd FINA 2022 a/neu Bencampwriaeth LEN Ewrop

**9**
Medal wedi eu hennill gan athletwyr Nofio Cymru ym Mhencampwriaethau Dŵr y Byd FINA 2022 a Phencampwriaethau LEN Ewrop

SWIM WALES®
NOFIO CYMRU



# CYFATHREBU

> MAE NOFIO CYMRU WEDI GOSOD EI HUN FEL GRYM YSGOGOL NID YN UNIG YM MYD NOFIO A GWEITHGAREDDAU DYFROL, OND MEWN CHWARAEON AC IECHYD HEFYD, TRWY EIN STRATEGAETH GYFATHREBU RAGWEITHIOL A'N HEIRIOLAETH WLEIDYDDOL.

**Rydym wedi gweld gwir bŵer cyfathrebu cryf ym myd dyfrol Cymru yn ystod blwyddyn ariannol 2022-2023. Rydym wedi dathlu ein hathletwyr elît yn tynnu sylw ar lwyfan y byd ac wedi brwydro i gadw ein cyfleusterau llawr gwlad yn weithredol. Wrth i ni fyfyrio ar gyflawniadau'r flwyddyn ddiwethaf, nod y crynodeb cyfathrebu hwn yw tynnu sylw at rai o'r cerrig milltir arwyddocaol hynny.**

Mae Nofio Cymru wedi gosod ei hun fel grym ysgogol nid yn unig ym myd nofio a gweithgareddau dyfrol, ond chwaraeon ac iechyd hefyd trwy ein strategaeth gyfathrebu ragweithiol a'n heiriolaeth wleidyddol.

**LLWYDDIANT YNG NGEMAU'R GYMANWLAD**

Yn dilyn cynnydd yn achosion Covid-19 ddiwedd y flwyddyn flaenorol, daeth Gemau'r Gymanwlad Birmingham ar yr amser perffaith i ddathlu ein camp gyda thorf sylweddol o Gymru yn bresennol i wylio ein hathletwyr Nofio Cymru yn herio ein gwrthwynebwyr o bell ac agos. Gan weithio'n agos gyda'n tîm Perfformio, aethom â'n cynulleidfaoedd ar daith gyda'n hathletwyr, o'u dewis, yr holl ffordd i bwll Sandwell a'r podiwm. Doedd dim stori dylwyth teg i rai, fel yn achos Alys Thomas a gafodd ei gorfodi i roi'r gorau i gystadlu o ganlyniad i anaf wedi'r Gemau.

Ond, gyda'n gilydd gwelsom y Gemau a gweithgareddau dyfrol yn dal sylw'r genedl. Enillodd Medi Harris fedal efydd yn y gystadleuaeth 100m nofio ar y cefn mewn rownd derfynol o nofwyr gorau'r byd.

Roedd Lily Rice eisoes wedi cael sylw am fod y fenyw gyntaf yn Ewrop i wneud fflip ôl yn ei chadair olwyn ond cafodd y ffordd y gwnaeth orffen yn drydydd yn y ras nofio ar y cefn sylw gan y cyfryngau na fyddai hi erioed wedi dychmygu ei gael. Mae'r ddau enillydd, o fewn tîm sydd wedi ennill clod am eu hundod a'u perfformiadau yn parhau i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf i fentro i'r dŵr.





**#SAVEOURPOOLS #ACHUBEINPYLLAU**

Wrth i bobl gael eu hysgogi i fynd yn ôl i'r dŵr ar ôl y pandemig a Gemau'r Gymanwlad, cafodd dyfodol gweithgareddau dyfrol ei daflu i fyd o ansicrwydd unwaith eto oherwydd yr argyfyngau ynni a chostau byw.

Fel y Corff Llywodraethu Cenedlaethol ar gyfer gweithgareddau dyfrol, gwnaethom wrthod eistedd yn ôl ac aros. Mewn ymateb i'r bygythiad cynyddol a wynebai ein partneriaid, ein clybiau ac iechyd a lles y genedl, gwnaethom lansio ymgyrch #SaveOurPools #AchubEinPyllau.

Gyda thri chwarter cyfleusterau'r cyngor yn cael eu dosbarthu fel rhai 'ansicr' a'r dirywiad mawr yng ngallu ein pobl ifanc i nofio, roedd yn hollbwysig bod ein sefydliad yn eiriol dros ein camp. Ochr yn ochr â Swim England, Scottish Swimming a Community Leisure UK, cafodd ymgyrch dwy ran ei lansio gyda'r nod o ledaenu ein negeseuon ymhell ac agos a gorfodi newid ar lefel y Llywodraeth er mwyn sicrhau bod ein pyllau'n cael eu gwarchod.

Cafodd y ddeiseb Achub Ein Pyllau fwy na 7,500 o lofnodion mewn cyfnod o ddau fis a chyrhaeddodd yr ymgyrch fwy na chwarter miliwn o bobl. Ers hynny, cyfeiriwyd at yr ymgyrch yn nadl cyllideb y Senedd, ac mae wedi bod yn ganolbwynt i sawl adroddiad teledu, radio a phapur newydd cenedlaethol.

Cafodd llwyddiant yr ymgyrch Achub Ein Pyllau ei amlygu gan enwebiad ar gyfer Gwobr Diwydiant Chwaraeon Cymdeithas Chwaraeon Cymru.

**CYFATHREBU BRYS**

Roedd bygythiad gwirioneddol i enw da'r cwmni wrth i'n cynllun Cyfathrebu Brys gael ei brofi i'r eithaf gan Bencampwriaethau Cenedlaethol Nofio Cymru 2023 a gafodd eu canslo. Heb unrhyw fai arnom ni, yn gyntaf cafodd y Pencampwriaethau eu symud o Abertawe i Gaerdydd ac yna'u canslo oherwydd problemau gyda'r cyfleusterau ym Mwll Rhyngwladol Caerdydd.

Cydweithiodd y tîm er mwyn ymateb yn rhyngweithiol i'r sefyllfa, gan roi ein haelodau'n gyntaf drwy gyfathrebu'n glir ac yn agored â'r rhai oedd eisoes wedi cyrraedd y digwyddiad a'r rhai a oedd yn bwriadu ei fynychu. Er gwaethaf llond llaw o benawdau negyddol, gwnaethom wrth-wneud unrhyw ddifrod sylweddol i'n henw da trwy ein cyfathrebu, a thrwy gynnig digwyddiad ychwanegol yn Lerpwl.

**YMGYSYLLTU**

Mae ein galwadau ymgysylltu rheolaidd wedi dal i fod yn llwyddiannus. Bob deufis, mae ein partneriaid gweithredol yn cael mewnwelediad gan arbenigwyr mewn meysydd sydd o ddiddordeb iddynt, ac mae ein clybiau'n dod yn agosach at y Corff Llywodraethu Cenedlaethol trwy ddiweddariad agored, awr o hyd lle mae ganddynt y cyfle i gydweithio a gofyn am gymorth.

Rydym hefyd gwella ein systemau hefyd, gan ddefnyddio ffyrdd newydd o siarad â'n haelodau a'n cynulleidfaoedd ehangach trwy ein system aelodaeth JustGo.

Mae'r dyfodol yn ddisglair i frand Nofio Cymru wrth i ni edrych ymlaen at lansio ein Strategaeth YMLAEN newydd, a fydd yn alinio ein negeseuon er mwyn arddangos ehangder y gwaith cadarnhaol a wneir gan ein tîm

**James Candy**
*Rheolwr Cyfathrebu*

SWIM WALES
NOFIO CYMRU




# CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT

**Mae hyrwyddo Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn parhau i fod yn ffocws allweddol i'n sefydliad. Er ein bod yn ymfalchïo yn y camau sylweddol rydym wedi'u cymryd yn y maes hwn yn Nofio Cymru, mae'n amlwg bod angen gwneud mwy er mwyn gwneud ein chwaraeon yn hygyrch i bawb a gwireddu ein gweledigaeth o 'Weithgareddau Dyfrol i Bawb am Oes'.**

Yn Nofio Cymru, ein nod yn y pen draw yw creu amgylchedd diogel, croesawgar a chynhwysol lle mae pawb yn cael cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau dyfrol. Mae cymryd rhan mewn nofio, deifio a gweithgareddau dyfrol eraill o fudd mawr i les corfforol a meddyliol unigolyn. Er mwyn sicrhau bod pawb yn gallu dysgu, cymryd rhan a chystadlu yn y dŵr, rydym wedi ymrwymo i greu amgylchedd lle mae amrywiaeth yn cael ei ddathlu a lle mae pawb yn cael eu trin â pharch ac urddas.

Rydym yn gwybod o gydweithio â'n partneriaid nad yw'r awydd gymryd rhan mewn gweithgareddau dŵr yn fwy nag erioed, ac rydym bellach yn gweithio'n ddiflino gyda'n partneriaid i chwalu rhwystrau a chreu cyfleoedd newydd. Rydym wedi cael llwyddiant mawr ar brosiectau wedi'u targedu yng Nghasnewydd, Caerdydd ac Abertawe dros y flwyddyn ddiwethaf.

Rydym wedi cefnogi dros 50 o fenywod o gymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifol ethnig i ddysgu sut i fod yn nofwyr diogel a chymwys. Hefyd, rydym wedi cefnogi dynion a menywod yn ardal Caerdydd i ddod yn achubwyr bywyd ac athrawon nofio, a fydd gobeithio yn ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o'n gweithlu gweithgareddau dyfrol.

Yn ogystal â rhoi cyfleoedd newydd a chwalu rhwystrau, rydym yn credu er mwyn ymgorffori diwylliant cynhwysol bod angen i ni addysgu'r gymuned gweithgareddau dyfrol a gwneud i bawb sylweddoli bod ganddyn nhw rôl i'w chwarae. Ym mis Tachwedd cynhaliom ein gweithdy Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant cyntaf ar gyfer ein haelodau a'n partneriaid. Roedd y sesiwn yn hynod o lwyddiannus gyda dros 100 o bobl yn ei mynychu. Wrth i ni symud ymlaen bydd Nofio Cymru yn cynnal mwy o weithdai a gweminarau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar nifer o bynciau pwysig.

Er bod cynnydd wedi'i wneud yn y maes hwn, rydym yn bwriadu cymryd camau mawr dros y 12 mis nesaf. Byddwn yn lansio 'Cynnwys' fframwaith Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant gyntaf Nofio Cymru yn y dyfodol agos. Bydd y fframwaith nid yn unig yn amlinellu ein canlyniadau a'n hamcanion strategol dros y blynyddoedd nesaf, ond bydd hefyd yn ein cadw'n atebol fel sefydliad.

Gyda'n gilydd, gallwn adeiladu cymuned sy'n cofleidio amrywiaeth ac yn hyrwyddo ffyrdd egnïol ac iach o fyw i bawb.

**Sioned Williams**
*Pennaeth Gweithgarwch Dyfrol a Chynhwysiant*

SWIM WALES
NOFIO CYMRU






> MAE NOFIO CYMRU YN GWEITHIO AR GYNLLUN I GEFNOGI GWELL LLYWODRAETHU AR DRAWS EIN SEFYDLIADAU CYSYLLTIEDIG

# LLYWODRAETHU

**Yn fy adroddiad y llynedd, ysgrifennais am Fframwaith Llywodraethu ac Arweinyddiaeth Cymru (GLFW) ac ar ddiwedd 2022, dewisodd Chwaraeon Cymru Nofio Cymru ar gyfer adolygiad Llywodraethu. Penododd Chwaraeon Cymru ymgynghorydd allanol i weithio gyda Phennaeth Llywodraethu Nofio Cymru er mwyn asesu'r drefn lywodraethu ar draws y sefydliad.**

Roedd yr asesiad yn amrywio o gyflwyno polisïau a gweithdrefnau i'w hadolygu, arsylwi cyfarfodydd bwrdd a chyfarfod asesu terfynol.

Gwnaethom ddangos tystiolaeth o sut mae Llywodraethu wrth wraidd popeth a wneir gennym. Sut mae'r saith egwyddor allweddol yn Fframwaith Llywodraethu ac Arweinyddiaeth Cymru yn cael eu hystyried. Ein hymrwymiad i wella amrywiaeth yn ein sefydliad ac ar draws ein camp. Adroddodd yr ymgynghorydd 'bedwar o werthoedd clir a sydd i'w gweld ar draws llywodraethu Nofio Cymru:

Cydweithredu, Angerdd, Uchelgais ac Arloesedd. Cwblhaodd yr ymgynghorydd ei adroddiad gyda'r geiriau canlynol - "Mae Nofio Cymru i'w ganmol am flaenoriaethu llywodraethu'n glir ar draws y sefydliad". Roeddem yn falch iawn o ddarllen hyn, a gafodd ei gyflawni o ganlyniad i ymdrech ymroddedig y tîm.

Mae Nofio Cymru yn gweithio ar gynllun i gefnogi gwell llywodraethu ar draws ein sefydliadau cysylltiedig ac yn 2023/2024 bydd yn cyflwyno fframwaith arweinyddiaeth ar gyfer arweinwyr clybiau gan ein galluogi ni i gyd i fod mewn sefyllfa dda ac yn fwy gwybodus yn ein rolau.

**Zita Cameron**
*Pennaeth Llywodraethu (Arweinydd Diogelu a Lles Nofio Cymru)*



# DIOGELU



"IT GIVES ME GREAT PLEASURE TO SAY THAT SWIM WALES MAINTAINED ITS L3 SAFEGUARDING CHILDREN IN SPORT FOR ANOTHER YEAR."

"YM MIS MAI 2022 GWNAETHOM FODLONI'R SAFON ASESU UCHAF UNWAITH ETO; MAE SICRHAU ANRHYDEDD O'R FATH YN DIGWYDD TRWY GYDWEITHIO'N FEWNOL AC YN ALLANOL."

**Mae diogelu yn chwarae rhan strategol yn y dirwedd chwaraeon. Mae Tîm Diogelu Nofio Cymru yn gweithio'n uniongyrchol gyda Swyddogion Lles y Clybiau sy'n cwblhau eu cyfnod sefydlu er mwyn gweithredu a chynnal arferion diogelu da. Trwy'r gwaith cydweithredol hwn rydym yn parhau i ganolbwyntio ar y nod o leihau'r risg o gam-drin a sicrhau bod chwaraeon Dyfrol yn aros yn ddiogel ac yn bleserus i bawb sy'n cymryd rhan.**

Yn 2013 yn dilyn, proses asesu drylwyr, gwnaethom ddangos tystiolaeth i Chwaraeon Cymru a'r Uned Amddiffyn Plant mewn Chwaraeon bod ein gweithdrefnau a'n prosesau yn bodloni eu disgwyliadau. Bob blwyddyn ers hynny, rydym wedi cael ein hasesu, gan sicrhau ein bod yn dal i fodloni'r safonau disgwyliedig trwy welliant parhaus. Gwnaethom gwrdd â'r safon asesu uchaf unwaith eto ym mis Mai 2022; mae sicrhau anrhydedd o'r fath yn digwydd trwy gydweithio'n fewnol ac yn allanol.

Plant a phobl ifanc yw ein dyfodol, gobeithio un diwrnod nhw fydd yn eistedd lle rydych chi a fi'n eistedd nawr. Dyma pam y dylem roi cyfleoedd datblygu o fewn Gweithgareddau Dyfrol i blant gymryd rhan ynddyn a chael eu clywed. Rydym clywed cymaint o straeon gwych am arfer da yn ein clybiau sy'n dangos cyfleoedd i blant, e.e. Pwyllgorau plant/pobl ifanc sydd â Chylch Gorchwyl, Pwyllgorau Cymdeithasol Pobl Ifanc, Pwyllgorau Gwobrau Pobl Ifanc, a phobl ifanc yn mynychu cwrs Arweinwyr Nofio Cymru er mwyn dysgu mwy am rolau a gwirfoddoli mewn Gweithgareddau Dyfrol yng Nghymru.

Mae'r graddau y mae rhai clybiau'n mynd iddyn nhw, i roi llais i blant ifanc, wedi bod yn anhygoel a thrwy'r Fforymau Swyddogion Lles bydd y cyfle i rannu arfer gorau ar draws pob maes yn parhau.

Ydych chi erioed wedi gofyn i'r plant yn eich clwb os ydyn nhw'n gwybod gyda phwy i siarad os oes rhywbeth yn eu poeni? Ydyn nhw'n gwybod sut i gysylltu â'r Swyddog Lles? Ydyn nhw'n teimlo'n ddiogel ac yn rhydd o niwed? Tri chwestiwn mor syml a fyddai'n golygu cymaint i blentyn.

**Oedolion mewn Perygl, Ymddiriedolaeth Ann Craft (ACT)** yw'r contractwr a gafodd ei ddewis er mwyn i chwaraeon yng Nghymru weithio gyda chyrff llywodraethu cenedlaethol - mae gennym oll yr un cyfrifoldeb i weithredu arfer da ar gyfer diogelu oedolion sy'n ymwneud â gweithgareddau dyfrol. Mae cyrff llywodraethu cenedlaethol yng Nghymru yn cael eu cyflwyno i broses asesu gan Ymddiriedolaeth Ann Craft (ACT), yn debyg i'r asesiad blynyddol Uned Diogelu Plant mewn Chwaraeon (CPSU), er mwyn sicrhau bod gennym weithdrefnau a phrosesau ar waith a'n bod yn deall yr hyn mae'r gyfraith yn ei ddweud am ddiogelu oedolion. Bydd Nofio Cymru yn darparu cyfleoedd dysgu yn y dyfodol cyn y gofynion hyfforddi gorfodol.https://www.anncrafttrust.org/

**Zita Cameron**
*Pennaeth Llywodraethu (Arweinydd Diogelu a Lles Nofio Cymru)*





SWIM WALES
NOFIO CYMRU

# CYFRIFON ADRODDIAD CYLLID

**Parhaodd y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 (2022/23) i fod yn flwyddyn o ailadeiladu a chryfhau ar gyfer y dyfodol ar ôl y ddwy flynedd flaenorol, a gafodd eu heffeithio'n sylweddol gan bandemig y coronafeirws.**

Daeth y flwyddyn i ben ar warged gweithredu o £27.9k, o'i gymharu â gwarged o £135k yn y flwyddyn flaenorol. Roedd canlyniad 2022/23 yn bennaf oherwydd cynnydd mewn refeniw wedi'i hunan-gynhyrchu.

Parhaodd Nofio Cymru i adeiladu ar ffrydiau refeniw y gellid eu cynnal ar-lein gan gynnwys hyfforddiant a datblygu, nwyddau a bathodynnau a thystysgrifau. Yn 2022/23 roedd yr incwm grant yn 52% o gyfanswm yr incwm, a daeth y balans o 48% o refeniw wedi'i hunan-gynhyrchu fel hyfforddiant a datblygu, digwyddiadau, ffioedd aelodaeth, bathodynnau a thystysgrifau a nwyddau.

Bu 2022/23 yn flwyddyn eithriadol ar gyfer twf mewn meysydd allweddol. Bu cynnydd o 78% o'i gymharu â 2021/22 mewn Bathodynnau a Thystysgrifau, a bu cynnydd o 16% mewn nwyddau. Mae ein hincwm cyffredinol wedi gostwng ers 2021/22 ond chwyddwyd y canlyniadau hyn o gymharu â 2022/23 gan ei fod yn cynnwys £108k o Yswiriant Tarfu ar Fusnes ac enillion o ailbrisio eiddo buddsoddi.

Y digwyddiad dan do cenedlaethol cyntaf i ddychwelyd gyda gwylwyr oedd y digwyddiad Agored yr Haf ym mis Awst 2022, ac roedd dychweliad gwylwyr i ddigwyddiadau wedi helpu i gyfrannu at y refeniw ychwanegol o £47k a gynhyrchwyd o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol a chynnydd o £59k i'r Rhanbarthau.

Gwnaeth Nofio Cymru gais llwyddiannus am Gronfa Costau Byw Chwaraeon Cymru sydd i'w defnyddio mewn cysylltiad â phwysau costau byw yn ein camp. Derbyniwyd hwn ym mis Mawrth 23 ac mae wedi'i symud i incwm gohiriedig, mae angen defnyddio'r grant hwn erbyn 24 Mawrth.

Yn 2022/23 bu ailstrwythuro sefydliadol pellach o fewn adran Gweithgareddau Dyfrol a Chynhwysiant Nofio Cymru, gyda Rheolwr Aelodaeth newydd a Rheolwr Digwyddiadau newydd yn cael eu penodi. Roedd hyn yn rhan o strategaeth Nofio Cymru i gynyddu incwm o'r ddau faes busnes hyn, er mwyn dod yn llai dibynnol ar gyllid Chwaraeon Cymru.

Fodd bynnag, daw blwyddyn ariannol 2023/24 â heriau newydd gyda'r argyfwng costau byw a allai arwain at effaith sylweddol ar ffrydiau incwm wedi'u hunan-gynhyrchu.

**Emma Powell**
*Pennaeth Cyllid a Gweinyddu*






# INCWM CYFRIFON

| | 31/03/2023 | 31/03/2022 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| **INCWM** | | |
| **GRANTIAU** | | |
| *Chwaraeon Cymru* | 1,003,279 | 1,260,823 |
| *Cyllid arall* | 149,925 | 126,979 |
| | **1,153,204** | **1,387,802** |
| **DATBLYGIAD GWEITHGAREDDAU DYFROL** | | |
| *Aelodaeth* | 244,220 | 212,515 |
| *Digwyddiadau* | 170,427 | 117,016 |
| *Rhanbarthol* | 86,377 | 27,741 |
| *Plymio* | 10,992 | 13,296 |
| *Polo Dŵr* | 31,397 | 42,190 |
| *Dŵr Agored* | 0 | 2,960 |
| *Llwybr* | 362 | 0 |
| | **543,775** | **415,718** |
| **DATBLYGU BUSNES** | | |
| *Nwyddau* | 27,370 | 10,001 |
| *Nawdd* | 15,240 | 5,417 |
| *Bathodynnau a Thystysgrifau* | 89,950 | 50,503 |
| *Addysg* | 366,869 | 347,650 |
| | **499,429** | **413,571** |
| **PERFFORMIAD CENEDLAETHOL** | **9,891** | **24,667** |
| **YMYRRAETH BUSNES HAWLIAD YSWIRIANT** | **6,631** | **53,390** |
| **BUDDION AR AILBRISIO O EIDDO BUDDSODDI** | **0** | **55,000** |
| **INCWM ARALL** | **13,081** | **13,269** |
| | **2,226,011** | **2,363,417** |



SWIM WALES
NOFIO CYMRU

# CYFRIFON GWARIANT

| | 31/03/2023 | 31/03/2022 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| **GWARIANT** | | |
| **DATBLYGU GWEITHGAREDDAU** | | |
| **DYFROL** | | |
| Staffio | 124,293 | 143,845 |
| Aelodaeth | 34,800 | 48,050 |
| Digwyddiadau | 187,853 | 136,811 |
| Rhanbarthol | 63,589 | 109,737 |
| Deifio | 10,992 | 26,154 |
| Polo Dŵr | 44,748 | 42,084 |
| Llwybr | 124,290 | 129,458 |
| Dŵr Agored | - | 14,225 |
| | **590,565** | **650,364** |
| **DATBLYGU BUSNES** | | |
| Staffio | 23,704 | 38,028 |
| Nwyddau | 13,737 | 17,005 |
| Nawdd | 14,898 | 1,575 |
| Bathodynnau a Thystysgrifau | 23,208 | 12,226 |
| Addysg | 265,682 | 213,515 |
| | **341,229** | **282,349** |
| **PERFFORMIAD CENEDLAETHOL** | | |
| Rhaglen Elitaidd | 351,922 | 307,391 |
| Staffio Elitaidd | 378,634 | 401,813 |
| Athletwr Elitaidd | 49,000 | 83,582 |
| | **779,556** | **792,786** |
| **GORBENION** | **486,749** | **502,899** |
| | **2,198,099** | **2,228,398** |
| **NET** (Diffyg / Gwarged ar gyfer y flwyddyn cyn treth) | **27,912** | **135,019** |



# MANTOLEN CYFRIFON

| | 31/03/2023 | 31/03/2022 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| **ASEDAU SEFYDLOG** | | |
| Asedau diriaethol | 29,062 | 23,810 |
| Buddsoddiadau | 1 | 1 |
| Eiddo Buddsoddi | 410,000 | 410,000 |
| | **439,063** | **433,811** |
| **ASEDAU CYFREDOL** | | |
| Stociau | 10,006 | 8,804 |
| Dyledwyr | 246,808 | 330,338 |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 570,773 | [illegible] |
| | **827,587** | **989,985** |
| **CREDYDWYR** | | |
| Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | **480,816** | **653,915** |
| **ASEDAU CYFREDOL NET** | **346,771** | **336,070** |
| **CYFANSWM ASEDAU LLAI RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL** | **785,834** | **769,881** |
| **CREDYDWYR** Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | (25,000) | (35,000) |
| **DARPARIAETHAU AR GYFER RHWYMEDIGAETHAU** | (4,994) | (4,994) |
| **ASEDAU NET** | **755,840** | **729,887** |
| **CRONFEYDD WRTH GEFN** | | |
| Cronfa ailbrisio | 107,207 | 107,207 |
| Cronfa gwerth deg | 55,000 | 55,000 |
| Cyfrif incwm a gwariant | **593,633** | **567,680** |
| | **755,840** | **729,887** |



SWIM WALES
NOFIO CYMRU

Hoffem ddweud diolch yn fawr iawn i'n partneriaid
sydd wedi gwneud y flwyddyn ddiwethaf hon yn llwyddiant mawr.

## Diolch! Thank you!


**NOFIO CYMRU**
Pwll Cenedlaethol Cymru,
Lôn Sgeti,
Abertawe,
SA2 8QG

swimwales.org • 01792 513636 • @NofioWales


SWIM WALES
NOFIO CYMRU

INCLUDE®
CYNNWYS